# Cyfarfod Eithriadol Bwrdd AIA IGDC – CYHOEDDUS – Cofnodion wedi'u cadarnhau

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Eithriadol Awdurdod Iechyd Arbennig (AIA) Iechyd Digidol a Gofal Cymru (IGDC) a gynhaliwyd ddydd Iau 25 Mehefin 2026 fel cyfarfod rhithwir a ddarlledwyd yn fyw dros Zoom.

09:30 – 09:50 | 25 Mehefin 2026 | ZOOM

| Aelodau'n Bresennol | Llythrennau Cyntaf | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Ruth Glazzard | RG | Cadeirydd Dros Dro'r Bwrdd | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| David Selway | DS | Is-gadeirydd Dros Dro | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Ifan Evans | IE | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Sam Hall | SH | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Rhidian Hurle | RH | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Marilyn Bryan Jones | MBJ | Aelod Annibynnol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Marian Wyn Jones | MWJ | Aelod Annibynnol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Chris Moreton | CM | Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Alistair Klaas Neill | AKM | Aelod Annibynnol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Helen Thomas | HT | Prif Swyddog Gweithredol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |

| Yn bresennol | Llythrennau Cyntaf | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Chris Darling | CD | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol \| Ysgrifennydd y Bwrdd | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Paul Evans | PE | Aelod Cyswllt o’r Bwrdd – Undeb Llafur | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |

| Yn arsylwi | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|
| Jenilee Cardy | Uwch Swyddog Cyfathrebu | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Julie Robinson | Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol/Risg | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |
| Laura Tolley | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd \| Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |

| Ymddiheuriadau | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|
| Sam Lloyd | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig |
| CEO | Prif Swyddog Gweithredol | IM | Aelod Annibynnol |
| LLC | Llywodraeth Cymru | | |

| Rhif yr Eitem | Manylion yr Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL | | | |
| 1.1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro bawb i Gyfarfod Bwrdd Eithriadol AIA Iechyd a Gofal Digidol Cymru a gynhaliwyd i gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol Terfynol 2025/26 ac Adroddiad Blynyddol 2025/26 IGDC. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr | Nodwyd | Dim i’w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drafft wedi'u hadolygu'n fanwl gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Mai 2026, a'u bod wedi bod yn destun goruchwyliaeth reolaidd drwy gydol eu datblygiad gan y tîm Gweithredol.<br><br>Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw drwy Zoom ac yn ogystal, byddai'r recordiad ar gael drwy wefan IGDC i unrhyw un na allai gael mynediad i'r cyfarfod yn fyw. | | |
| 1.2 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau gan:<br><br>• Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | **Datganiadau o Fuddiannau**<br><br>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| BUSNES Y CYFARFOD | | | |
| RHAN 2 - PRIF AGENDA | | | |
| 2.1 | **Adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio**<br><br>Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd fod y Pwyllgor wedi adolygu'r cyfrifon drafft a'r adroddiad blynyddol ym mis Mai 2026 ac wedi hynny wedi cymeradwyo'r cyfrifon wedi'u harchwilio, yr Adroddiad Blynyddol a'r Llythyr Cynrychiolaeth ar gyfer 2025/26, ac wedi argymell y rhain i'r Bwrdd i'w cymeradwyo yn ei gyfarfod Pwyllgor eithriadol a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026.<br><br>Nododd y Bwrdd:-<br><br>• Yr adborth cadarnhaol gan Archwilio Cymru, gan gynnwys y farn archwilio ddiamod a gynlluniwyd, dim problemau sylweddol na chamddatganiadau heb eu cywiro, a chanmoliaeth i ymgysylltiad a chydweithrediad IGDC drwy gydol yr archwiliad.<br>• Barn Pennaeth Archwilio Mewnol, a roddodd sicrwydd sylweddol o ran llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan gydnabod yr angen i gynnal ffocws ar argymhellion heb eu cwblhau a meysydd sy'n gysylltiedig â chyflawni rhaglenni mawr.<br>• Bod IGDC wedi symud o lefel uwchgyfeirio 3 i ymyrraeth dargedig Lefel 4 mewn perthynas â chyflawni rhaglenni mawr. Cydnabu'r Bwrdd fod rhai canfyddiadau archwilio yn ddibynnol ar bartneriaid ehangach GIG Cymru ac nad oeddent yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth uniongyrchol IGDC.<br>• Y ddwy risg hysbys a nodwyd gan Archwilio Cymru mewn perthynas â darpariaethau a rhwymedigaethau amodol sy'n deillio o fater TAW Microsoft, a balansau asedau'r rhaglen, y ddau ohonynt yn destun monitro gweithredol.<br><br>**Penderfynodd y Bwrdd:**<br><br>**NODI'R** Adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.2 | **Cyfrifon Blynyddol Terfynol Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2025/2026**<br>• **Datganiadau Ariannol (wedi'u cynnwys yn eitem 2.3 ar yr agenda)**<br>• **Archwiliad Cyfrifon Archwilio Cymru (ISA260) (gan gynnwys Llythyr Cynrychiolaeth)**<br><br>Cyflwynodd Chris Moreton, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (CM) y cyfrifon, gan nodi'r flwyddyn heriol a gafodd IGDC, gan gynnwys pwysau ychwanegol ar y tîm cyllid ac absenoldebau allweddol yn ystod y flwyddyn. Diolchodd i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd am eu cefnogaeth yn dilyn ei benodiad yn Gyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, a chydnabu gyfraniad cydweithwyr ar draws IGDC wrth gynhyrchu'r cyfrifon blynyddol. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi'r canlynol:<br><br>• Roedd IGDC wedi cyflawni'r ddwy ddyletswydd ariannol statudol ar gyfer 2025-26, gan adrodd tanwariant refeniw o £0.241m a thanwariant cyfalaf o £0.095m, ac wedi cyflwyno ei Gynllun Tymor Canolig Integredig. Roedd y tîm cyllid hefyd wedi cyflawni gofynion ychwanegol, gan gynnwys adolygiad sylfaenol Llywodraeth Cymru ac asesiad gafael a rheolaeth.<br>• Bwriad Archwilio Cymru i gyhoeddi barn ddiamod, heb unrhyw faterion arwyddocaol i'w hadrodd a dim camddatganiadau heb eu cywiro. Amlygwyd canlyniad yr archwiliad fel un a roddodd sicrwydd i Fwrdd yr AIA ynghylch sefyllfa ariannol IGDC yng nghyd-destun ei statws uwchgyfeirio Lefel 4.<br><br>**Penderfynodd y Bwrdd:**<br>**GYMERADWYO** Cyfrifon Blynyddol Terfynol IGDC 2025/2026;<br>• Datganiadau Ariannol (wedi'u cynnwys yn eitem 2.3 ar yr agenda);<br>• Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru (gan gynnwys Llythyr Cynrychiolaeth) | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |
| 2.3 | **Adroddiad Blynyddol IGDC 2025-26 (gan gynnwys Adroddiad Atebolrwydd, Adroddiad Perfformiad a Datganiadau Ariannol)**<br>Cyflwynodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol \| Ysgrifennydd y Bwrdd grynodeb o drosolwg yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2025-26, gan dynnu sylw at yr adroddiad perfformiad, yr adroddiad atebolrwydd a'r datganiadau ariannol.<br>Nodwyd y pwyntiau canlynol:<br>• byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi fel un ddogfen, yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad, yr Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol, ac yn darparu cyfrif teg, cytbwys a dealladwy o weithgareddau IGDC yn ystod y flwyddyn .<br>• Roedd adborth gan Lywodraeth Cymru, Archwilio Cymru, Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio wedi'i ymgorffori yn y drafft terfynol a gyflwynwyd i'w gymeradwyo. | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Yn amodol ar gymeradwyaeth, byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno gyda'r cyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru, cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/cyfarfod cyhoeddus ar 30 Gorffennaf .<br>• Er mwyn caniatáu mwy o hygyrchedd ac i gynrychioli IGDC fel sefydliad digidol, bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gyhoeddi mewn fformat HTML a fydd yn cael ei hyrwyddo'n weithredol.<br><br>**Penderfynodd y Bwrdd:**<br>**GYMERADWYO** Adroddiad Blynyddol IGDC. | | |
| RHAN 3 – MATERION I GLOI | | | |
| 3.1 | **Unrhyw Faterion Brys Eraill**<br>Ni chodwyd yr un mater brys arall. | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 3.2 | **Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf**<br>• Dydd Iau 30 Gorffennaf 2026;<br>• Fe'i dilynir gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol<br>Daeth y cyfarfod i ben am 09:52 | Nodwyd | Dim i'w nodi |